**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

(CLA(4)-08-11)

**CLA46**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r symiau dyddiol safonol y caiff Gweinidogion Cymru eu hadennill am bob diwrnod—
(a) y bydd ymchwiliad lleol yn eistedd neu y bydd y person a benodwyd i gynnal yr ymchwiliad lleol wrthi rywfodd arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad lleol; neu
(b) y bydd y person a benodwyd i ymgymryd ag ymchwiliad cymwys neu, yn ôl fel y digwydd, gweithdrefn gymwys, wrthi yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad cymwys neu'r weithdrefn gymwys.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**Rhinweddau: craffu**

<u>Asesiad Effaith Rheoleiddiol</u>

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan mai bwriad y diwygiad yw cynyddu'r ffïoedd statudol. Fodd bynnag, pan uwchraddiwyd y ffïoedd hyn ddiwethaf (yn 2007), darparwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

<u>Cyfrifo lefelau newydd y ffi</u>

Nid oes gwybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol sy'n esbonio sut y cyfrifwyd y cynnydd mewn ffïoedd, cyfanswm yr incwm ychwanegol yr amcangyfrifir a gaiff ei godi o ganlyniad i'r cynnydd a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar gyllidebau a chronfeydd llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru.

<u>Ystyriaeth gan y Pwyllgor</u>

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg esboniad o'r materion uchod yn y Memorandwm Esboniadol a'r diffyg Asesiad Effaith

Rheoleiddiol. Ym marn y Pwyllgor, pan fydd is-ddeddfwriaeth yn gosod ffïoedd newydd neu ychwanegol ar gyrff preifat neu gyhoeddus, neu unigolion, dylid cael esboniad hunangynhwysol i gyd-fynd â hi sy'n esbonio sut y cyfrifwyd y ffïoedd neu'r costau ychwanegol a beth fydd effaith ehangach y newidiadau ar y cyrff neu'r unigolion dan sylw. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol yn annigonol i'r diben hwn.

Cytunodd y Pwyllgor fod hyn yn codi pwynt polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad a chytunodd i ddwyn y mater i sylw'r Cynulliad mewn adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3(ii).

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Hydref 2011**